WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1611A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fe allai oleuo ein gwaith archwilio dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ginette Beal a Lidia Vorontsova o Grant Thornton LLP dan gyfarwyddyd Non Jenkins a Sara-Jane Byrne.

# Cynnwys

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2014. Mae cydweithio gyda CBS Torfaen hyd yma wedi cyfrannu at allu'r Cyngor i gyflawni â llai. Yn dilyn tynnu'n ôl o'r trefniant ym mis Tachwedd 2019 bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol a gweithredol ychwanegol a allai effeithio ar ei allu i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r un safon


Adroddiad cryno

Crynodeb 6

Adroddiad manwl

Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cael eu hystyried yn rheolaidd trwy drefniadau Craffu'r Cyngor. Rhoddir cymorth i Aelodau mewn modd rhagweithiol ac mae hyfforddiant yn cymharu'n dda â'r hyn a welwyd mewn ardaloedd eraill 9

Nid yw gwasanaethau rheng flaen ym maes iechyd yr amgylchedd wedi profi toriadau yn eu cyllidebau yn y cyfnod hwn, er yr ymgynghorwyd â thrigolion ynghylch newidiadau 9

Mae'r Cyngor wedi adnabod ei ddyletswyddau statudol ac anstatudol ac wedi hunanasesu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau. Mae blaenoriaethau iechyd yr amgylchedd wedi cael eu cytuno a'u dogfennu yng nghynllun busnes y gwasanaeth 10

Mae'r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd ac wedi cynnal perfformiad trwy roi gwasanaethau ar gontract allanol a chydweithio gyda CBS Torfaen. Yn dilyn terfynu'r cytundeb cydweithio bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a dylai ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau newid o ganlyniad 10

Mae amcanion gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn gyson â'r amcanion corfforaethol a'r amcanion llesiant. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwneud defnydd cyfyngedig o dechnoleg a TGCh wrth ddarparu gwasanaethau 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fel rhan o'i gyfres o Astudiaethau Gwella Awdurdodau Lleol, 'Cyflawni â Llai', cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion, ym mis Hydref 2014.

2 Yn yr adroddiad hwn, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at ddeddfwriaeth ddiweddar a deddfwriaeth a oedd ar ddod, a phryderon Cynghorau na fyddent yn gallu cyflawni'r ymrwymiadau ynddi. Mae llawer o'r cynigion deddfwriaethol y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad a gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol yn 2014 wedi cael eu rhoi ar waith ers hynny, gan gynnwys Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Pasiwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn 2017 hefyd.

3 Fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau lleol ar gyfer pob Cyngor hefyd fel ran o astudiaeth 2014.

4 Mewn llythyr at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol ar 11 Ionawr 2018, nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i wneud peth gwaith thematig sy'n fwy cyson â'i raglen o Astudiaethau Llywodraeth Leol. Diben cysoni gwaith thematig yn fwy â'r rhaglen Astudiaethau Llywodraeth Leol yw gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau archwilio wrth gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol gan sicrhau ar yr un pryd bod materion, themâu a gwersi a nodir mewn adroddiadau ar Astudiaethau Llywodraeth Leol yn 'cael sylw dilynol' ac yn cael eu harchwilio gyda chynghorau'n lleol mewn blynyddoedd dilynol.

5 Roedd yr adolygiad hwn yn asesu a fu unrhyw newidiadau o ran cyllidebau a staff yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014. At ddiben yr adolygiad hwn, fe ganolbwyntiom ni ar gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion 2, 3, 4 a 5 yn yr adroddiad cenedlaethol.

6 Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad a nodir yn Arddangosyn 1 isod:

Arddangosyn 1: argymhellion a wnaed yn adroddiad cenedlaethol 2014, Cyflawni â Llai - yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion

| Argymhelliad | Partneriaid Posibl |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Posibl |
|---|---|
| • nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | |
| A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Posibl |
|---|---|
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Cynghorau |
| A6 Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru,<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

7 Fe gynhaliom ni'r arolwg hwn yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2019.

# Yr hyn a ganfuom

8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Iechyd yr Amgylchedd – Cyflawni â Llai a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014?**


9 Ar y cyfan canfuom fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2014. Mae cydweithio gyda CBS Torfaen hyd yma wedi cyfrannu at allu'r Cyngor i gyflawni â llai. Yn dilyn tynnu'n ôl o'r trefniant ym mis Tachwedd 2019 bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol a gweithredol ychwanegol a allai effeithio ar ei allu i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r un safon.**

10 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cael eu hystyried yn rheolaidd trwy drefniadau Craffu'r Cyngor. Rhoddir cymorth i Aelodau mewn modd rhagweithiol ac mae hyfforddiant yn cymharu'n dda â'r hyn a welwyd mewn ardaloedd eraill.
- nid yw gwasanaethau rheng flaen ym maes iechyd yr amgylchedd wedi profi toriadau yn eu cyllidebau yn y cyfnod hwn, er yr ymgynghorwyd â thrigolion ynghylch newidiadau.

- mae'r Cyngor wedi adnabod ei ddyletswyddau statudol ac anstatudol ac wedi hunanasesu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau. Mae blaenoriaethau iechyd yr amgylchedd wedi cael eu cytuno a'u dogfennu yng nghynllun busnes y gwasanaeth.
- mae'r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd ac wedi cynnal perfformiad trwy roi gwasanaethau ar gontract allanol a chydweithio gyda CBS Torfaen. Yn dilyn terfynu'r cytundeb cydweithio bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a dylai ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau newid o ganlyniad.
- mae amcanion gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn gyson â'r amcanion corfforaethol a'r amcanion llesiant. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwneud defnydd cyfyngedig o dechnoleg a TGCh wrth ddarparu gwasanaethau.
- hyd yma, mae cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi gostwng o £1.7 miliwn yn 2013-14 i £1.5 miliwn yn 2019-20 (cyfeirier at Arddangosyn 2), sy'n ostyngiad o oddeutu 13.5%.
- mae niferoedd y staff wedi gostwng o 35.5 cyfwerth ag amser llawn yn 2014 i 28.4 cyfwerth ag amser llawn yn 2019 (cyfeirier at Arddangosyn 3).
- yn 2015, sefydlodd CBS Blaenau Gwent a CBS Torfaen wasanaeth Safonau Masnachu a Thrwyddedu ar y cyd, a ehangwyd i gynnwys Iechyd yr Amgylchedd yn 2016.
- fe wnaeth y ddau Gyngor wireddu arbedion ariannol trwy gyflwyno strwythur rheoli ar y cyd ym mis Mehefin 2016, lleihau nifer y swyddi a gweithio ar draws y Cynghorau. Ategir hyn gan ostyngiad o 38% yn nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn gradd Rheolwr, yn ogystal â gostyngiad o 31% yn nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn gradd Gweinyddwr ers 2014.
- yn wreiddiol, roedd y ddau Gyngor yn amcanu at ddatblygu'r berthynas waith yn gydwasanaeth llawn. Ym mis Gorffennaf 2019, cymeradwyodd Gweithrediaeth CBS Blaenau Gwent y penderfyniad i dynnu'n ôl o'r trefniant.
- Amcangyfrifwyd mai £35,000 oedd effaith ariannol y penderfyniad hwn yn 2019-20 ac arbediad cylchol o £100,000 y flwyddyn wedi hynny.
- mae'r Cyngor yn ystyried ailgyflunio'i wasanaeth. Mae'r opsiynau'n cynnwys ceisio trefniant partneriaeth gyda Chyngor gwahanol.
- ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn lleihau swyddi technegol.

Arddangosyn 2 – cost net gwasanaethau iechyd yr amgylchedd: cyllideb refeniw o'i gymharu â'r alldro, 2012-13 i 2019-20




Arddangosyn 3 – niferoedd staff (cyfwerth ag amser llawn) 2014 o'i gymharu â 2019



# Cynigion ar gyfer Gwella

## Arddangosyn 4: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a ganfuom yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod wedi asesu effaith tynnu'n ôl o'r trefniant cydweithio gyda CBS Torfaen ar gynaliadwyedd ariannol a gweithredol gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. Mae angen iddo hefyd ystyried sut i barhau i ymateb i her gyllidebol y Cyngor ac i ddeddfwriaeth newydd. Gallai hyn gynnwys:<br>• ceisio trefniadau partneriaeth newydd gydag Awdurdodau eraill (gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle);<br>• adolygu contractau presennol gyda darparwyr trydydd parti i gynyddu cyfleoedd creu incwm i'r eithaf; a hefyd<br>• trawsnewid ac arloesi, megis defnyddio cudd-wybodaeth ddigidol i ragfynegi patrymau darparu gwasanaethau yn y dyfodol a/neu i oleuo penderfyniadau ynglŷn â darparu gwasanaethau.<br>Wrth ailgyflunio'r gwasanaeth, dylai'r Cyngor sicrhau bod pwerau a dyletswyddau statudol yn cael eu blaenoriaethu'n ddigonol ochr yn ochr â meysydd dewisol. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2014. Mae cydweithio gyda CBS Torfaen hyd yma wedi cyfrannu at allu'r Cyngor i gyflawni â llai. Yn dilyn tynnu'n ôl o'r trefniant ym mis Tachwedd 2019 bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol a gweithredol ychwanegol a allai effeithio ar ei allu i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r un safon

## Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cael eu hystyried yn rheolaidd trwy drefniadau Craffu'r Cyngor. Rhoddir cymorth i Aelodau mewn modd rhagweithiol ac mae hyfforddiant yn cymharu'n dda â'r hyn a welwyd mewn ardaloedd eraill

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae materion iechyd yr amgylchedd yn cael eu hystyried gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Adfywio a Datblygu Economaidd.
- Darperir hyfforddiant ar gyfer aelodau trwy sesiynau briffio, y gofynnir amdanynt gan Aelodau neu a gynigir gan y gwasanaeth.
- yn 2018-19, rhoddodd y sesiynau a ddarparwyd sylw i'r canlynol:
  - y Ddyletswydd dan Ddeddf yr Amgylchedd;
  - Datblygu Strategaeth Toiledau Lleol;
  - Diweddariad ar Orfodi ar Dramgwyddau sy'n ymwneud â Gwastraff Atodol.
- nid yw'r Pwyllgor yn mynd ati'n rheolaidd i hunanasesu ei effeithiolrwydd.
- ceir proses Gwerthusiad Craffu Blynyddol ar draws y Cyngor gydag adborth Aelodau'n cael ei gasglu trwy holiadur.
- fodd bynnag, rydym yn nod bod cyfranogiad yn 2018-19 yn isel, gyda dim ond 9 ymateb wedi dod i law allan o 34 posibl.

## Nid yw gwasanaethau rheng flaen ym maes iechyd yr amgylchedd wedi profi toriadau yn eu cyllidebau yn y cyfnod hwn, er yr ymgynghorwyd â thrigolion ynghylch newidiadau.

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- fe ymgynghorodd y Cyngor â thrigolion lleol ynghylch y newidiadau canlynol i'r gwasanaeth:
  - polisi gorfodi cydweithredol gyda Thorfaen;

    - y strategaeth toiledau lleol; a
    - newidiadau i'r polisi tacsis.
- cyflwynwyd canlyniadau'r ymgyngoriadau hyn i'r pwyllgorau Craffu perthnasol ac fe'u defnyddiwyd i drefnu'r broses benderfynu.
- cyflwynodd y Cyngor daliadau ar gyfer ei wasanaeth Rheoli Plâu; fodd bynnag mae'r trefniadau ar gyfer y gwasanaethau wedi cael eu hailystyried ers hynny – trafodir hyn mewn mwy o fanylder ym mharagraff 14.

## Mae'r Cyngor wedi adnabod ei ddyletswyddau statudol ac anstatudol ac wedi hunanasesu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau. Mae blaenoriaethau iechyd yr amgylchedd wedi cael eu cytuno a'u dogfennu yng nghynllun busnes y gwasanaeth

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor yn gwahanu gwasanaethau'n rhai statudol â blaenoriaeth, anstatudol heb flaenoriaeth, statudol a ragnodir a statudol dewisol.
- mae 11 o flaenoriaethau strategol ar gyfer y gwasanaeth wedi cael eu cytuno a'u dogfennu yng Nghynllun Busnes Diogelu'r Cyhoedd 2018-2022. Caiff y cynnydd o ran cyflawni'r rhain ei asesu'n chwarterol.
- mae gwasanaeth iechyd yr amgylchedd wedi hunanasesu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau ac mae wedi cyrraedd y safonau 'gofynnol' ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau iechyd yr amgylchedd, gyda llawer yn cyflawni un agwedd neu fwy nag un agwedd ar y safon 'well'.
- mae safonau derbyniol wedi cael eu diffinio'n fewnol trwy set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, ond nid ydynt wedi cael eu cyhoeddi.

## Mae'r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd ac wedi cynnal perfformiad trwy roi gwasanaethau ar gontract allanol a chydweithio gyda CBS Torfaen. Yn dilyn terfynu'r cytundeb cydweithio bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a dylai ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau newid o ganlyniad

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhybudd i adael ei drefniant cydweithio gyda CBS Torfaen ym mis Tachwedd 2019. Bydd hyn yn arwain at bwysau ariannol pellach.
- mae cydweithio, hyd yma, wedi galluogi'r Cynghorau i wella effeithlonrwydd a chynnal neu wella perfformiad, gan gynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) allweddol sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd.

- dylid nodi bod perfformiad yn erbyn PAM/013 (% yr adeiladau gwag y dechreuwyd eu defnyddio eto) a PAM/023 (% y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd) yn dal i fod islaw cyfartaledd Cymru.
- mae'r Cygor yn rhoi ei wasanaeth Rheoli Plâu ar gontract allanol i Mitie a'i wasanaeth Gorfodi ar Dramgwyddau Sbwriel a Rheoli Cŵn i Kingdom.
- caiff perfformiad y ddau gontractwr trydydd parti ei adolygu'n flynyddol gan Bwyllgorau Craffu.
- rydym yn nodi bod yr adolygiad Craffu diweddar wedi canfod mai dim ond gwarged bach yr oedd y gwasanaeth gorfodi'n ei greu i'r Cyngor ar ôl taliadau Kingdom. Mae mentrau i gynyddu incwm yn cael eu trafod.
- nid yw gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cael symiau sylweddol o gyllid grant.
- mae toriadau cyllidebol hyd yma wedi canolbwyntio ar leihau staff. Rhoddodd y Cyngor y gorau i ddarparu gweithgareddau Rheoli Plâu dewisol yn 2014 ond fe ailgyflwynodd y gwasanaeth hwn yn sgîl cynnydd ym materion iechyd y cyhoedd.

## Mae amcanion gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn gyson â'r amcanion corfforaethol a'r amcanion llesiant. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwneud defnydd cyfyngedig o dechnoleg a TGCh wrth ddarparu gwasanaethau

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r gwasanaeth yn adolygu ei berfformiad o ran cyflawni amcanion strategol yn chwarterol.
- mae hyn yn cynnwys adolygiad o ddata ariannol a data ar berfformiad (ansoddol a meintiol).
- mae costau, manteision ac effeithiau'n cael eu hystyried o fewn y broses gyllidebu mewn perthynas â thwf neu ostyngiadau i gyllid.
- rydym yn nodi, fodd bynnag, na chwblhawyd arfarniad o'r opsiynau na dadansoddiad o'r costau a'r manteision cyn penderfynu ymrwymo i'r trefniadau gwasanaeth ar y cyd na chyn ei adael.
- cyfyngedig yw'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar hyn o bryd. Fe wnaethom nodi bod ap hysbysu am ddigwyddiadau yn cael ei ddatblygu ar gyfer y gwasanaethau Stryd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru